Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd

Dyddiad: Dydd Iau, 15 Mawrth 2018

Amser: 09.31 – 12.39

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4620

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Simon Thomas AC (Cadeirydd) Neil Hamilton AC Jane Hutt AC Nick Ramsay AC David Rees AC
Tystion:	Alison Gerrard, Swyddfa Archwilio Cymru Anthony Barrett, Swyddfa Archwilio Cymru Nicola Evans, Swyddfa Archwilio Cymru Martin Peters, Swyddfa Archwilio Cymru Ann-Marie Harkin, Swyddfa Archwilio Cymru Suzy Davies AC, Comisiynydd Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad Nia Morgan, Cyfarwyddwr Cyllid
Staff y Pwyllgor:	Bethan Davies (Clerc) Leanne Hatcher (Ail Glerc) Georgina Owen (Dirprwy Glerc)

	Joanne McCarthy (Ymchwilydd) Owen Holzinger (Ymchwilydd) Ben Harris (Cynghorydd Cyfreithiol) Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Steffan Lewis AC a Mike Hedges AC.

2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

2.1 PTN1 - Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid at y Cadeirydd - Horizon 2020 Adroddiad Blynyddol 2017 - 7 Mawrth 2018

2.2 PTN2 - Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid at y Cadeirydd - Bondiau Buddsoddi Cyfalaf - 8 Mawrth 2018

2.3 PTN3 - Llythyr gan Gomisiwn y Cynulliad at y Cadeirydd - Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2018-19 - 9 Mawrth 2018

3 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013: Sesiwn dystiolaeth (Swyddfa Archwilio Cymru)

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth ar drefn ffioedd Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 gan Alison Gerrard, Aelod o Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru; Anthony Barrett, Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol; Martin Peters, Pennaeth Cyfraith a Moeseg, Swyddfa Archwilio Cymru; a Nicola Evans, Pennaeth Cyllid, Swyddfa Archwilio Cymru.

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 5 ac eitemau 8-11

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

5 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013: trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

6 Ymchwiliad i'r tanwariant sy'n deillio o Benderfyniadau'r Bwrdd Taliadau: Sesiwn dystiolaeth 1 (Swyddfa Archwilio Cymru)

6.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth mewn perthynas â'i ymchwiliad i'r tanwariant sy'n deillio o Benderfyniadau'r Bwrdd Taliadau gan Anthony Barrett, Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol; ac Ann-Marie Harkin, Arweinydd Archwilio Ariannol ar gyfer archwilio cyfrifon Comisiwn y Cynulliad, Swyddfa Archwilio Cymru.

7 Ymchwiliad i'r tanwariant sy'n deillio o Benderfyniadau'r Bwrdd Taliadau: Sesiwn dystiolaeth 2 (Comisiwn y Cynulliad)

7.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth mewn perthynas â'i ymchwiliad i'r tanwariant sy'n deillio o Benderfyniadau'r Bwrdd Taliadau gan Suzy Davies AC, Comisiynydd y Gyllideb a Llywodraethu; Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad; a Nia Morgan, Cyfarwyddwr Cyllid, Comisiwn y Cynulliad.

8 Ymchwiliad i'r tanwariant sy'n deillio o Benderfyniadau'r Bwrdd Taliadau: trafod y dystiolaeth

8.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

9 Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru): trafod Adroddiadau Pwyllgor Cyfnod 1

9.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod yr adroddiadau Cyfnod 1 ar Fil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) gan y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

10 Gweithdrefn y Cynulliad ar gyfer Gorchmynion Adran 116C yn y Cyngor

10.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod llythyr gan y Pwyllgor Busnes ynghylch y newidiadau arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog mewn perthynas â Gweithdrefn y Cynulliad ar gyfer Gorchmynion Adran 116C yn y Cyngor a chytunodd i ymateb.

11 Datganoli pwerau cyllidol i Gymru: Trafod yr adroddiad drafft

11.1 Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad drafft â rhai mân newidiadau.